**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1392
Ein cyf LN/05579/24

Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Awst 2024

Annwyl Cadeirydd

**Diwygio cod anghenion dysgu ychwanegol Cymru 2021**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin 2024 ynglŷn â'r ddeiseb: Diwygio cod anghenion dysgu ychwanegol Cymru 2021.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i grŵp Diwygio System ADY Cymru ac aelodau'r Senedd am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad i gydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod uchelgeisiau diwygio'r system ADY yn cael eu gwireddu.

Rwyf am ailadrodd fy mod wedi ymrwymo'n llwyr i wella'r system ADY a chreu addysg gynhwysol lle gwrandewir ar anghenion pob dysgwr, lle yr ymatebir iddynt a lle cefnogir dysgwyr i gymryd rhan lawn mewn addysg.

Mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym nad yw'r system ADY yn gweithredu'n effeithiol mewn rhai meysydd. Rydym hefyd yn clywed am yr heriau cynyddol sy'n wynebu'r system. Mae'n amlwg bod angen gweithredu ar y cyd, gan gynnwys cyfnod o adolygu, cynllunio a phrofi cynigion i sicrhau ein bod yn cyflawni dros blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Roedd adroddiadau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ('*Gweithredu diwygiadau addysg*' ac '*A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg*') a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf yn nodi argymhellion y mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol ohonynt ac wrthi'n nodi camau i'w gweithredu. Mae'r argymhellion i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru fel rhan o adolygiad ehangach, a byddaf yn rhannu ein hymateb i'r adroddiad gyda'r Pwyllgor Deisebau.

Rwyf wedi gwrando ar grwpiau rhieni ac yn cydnabod eu pryderon. Rwy'n llawn sylweddoli bod cael gwrandawiad yn rhan o'r ateb. Mae hwn yn faes cymhleth ac yn elfen sensitif iawn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

o bolisi'r llywodraeth. Un o agweddau pwysig y gwaith hwn fydd sicrhau bod rhieni a dysgwyr yn cael lle canolog yn y broses ADY. Byddwn yn parhau i wrando a chydweithio â rhieni i ofalu eu bod yn cael y gefnogaeth, yr arweiniad a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt. Mae fy swyddogion eisoes wedi estyn allan i grŵp diwygio system ADY Cymru, a grwpiau rhieni a thrydydd sector eraill.

Fel y gwyddoch, rwyf wedi nodi fy ymrwymiad i wella'r drefn a sicrhau bod y fframwaith cyfreithiol yn cael ei ddeall yn glir, a pha gamau y gallwn eu cymryd yn y tymor byr i gefnogi'r sector i nodi a diwallu anghenion dysgwyr. Rwy'n falch o ddweud bod y gwaith eisoes wedi dechrau.

Mae hyn yn cynnwys cryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro partneriaid cyflawni allweddol, gan ddatblygu cyd-ddealltwriaeth ac eglurder o ran y disgwyliadau fel y'u nodir yn y ddeddf a'r cod. Rydym yn parhau i drafod yn rheolaidd gydag Estyn, a chefais gyfarfod â nhw y mis hwn i ddeall canfyddiadau gweithgareddau arolygu, a'r cynnydd a'r ddealltwriaeth hyd yn hyn, fel rhan o'r ail adolygiad thematig o'r system ADY.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Senedd am gyfrannu tystiolaeth bwysig a chaniatáu'r amser i swyddogion ganolbwyntio ar y gwaith sydd ei angen er mwyn symud yn gyflym a rhoi tawelwch meddwl i deuluoedd bod eu pryderon yn cael eu clywed a bod pethau'n symud yn eu blaen. Byddaf yn cadw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am gynnydd a byddaf yn ceisio ymateb i bryderon a godwyd gan Grŵp Diwygio ADY Cymru.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg